



DDIM YN OLWG DA

PECYN GWYBODAETH AM WASTRAFF

AWGRYMIADAU DEFNYDDIOL Y TU MEWN
YNGHYLCH SUT I WAREDU GWASTRAFF
CARTREF AC EITEMAU MAWR YN GWIR.



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidi

TACLO
TIPTO
CYMRU

#DDIMYNOLWGDA

GWIRIWCW BOB TRO FOD GANDDYNT DRWYDDED CLUDO GWASTRAFF GYDA CYFOETH NATURIOL CYMRU.



Y BROBLEM...

Mae perfformiad Cymru wedi sefyll allan ers amser hir yn y DU o ran cyfraddau ailgylchu ac mae wedi ei graddio'n drydedd yn fyd-eang¹.

Er gwaethaf hyn, mae tipio anghyfreithlon, fel yr enghraifft ar glawr y llyfryn hwn, yn dal i ddiwydd. Mae nid yn unig yn edrych yn wael ond mae hefyd yn niweidio'r amgylchedd.

Yn ôl data 2021/22, cofnodwyd dros 41,000 o achosion yng Nghymru flwyddyn diwethaf.²

O arolwg diweddar, canfuwyd bod 96% o fyfyrwyr o leiaf rhywfaint yn bryderus am yr amgylchedd, sydd yn eithriadol o gadarnhaol.

Fodd bynnag, gwyddom nad yw bob amser yn hawdd gwneud y peth iawn pan ddaw i waredu eich gwastraff a gall fod rhwystrau yn y ffordd.

Gellir defnyddio'r pecyn hwn fel offeryn i'ch helpu i waredu eich gwastraff yn gywir neu'n well byth – ei atal yn gyfan gwbl!

41,000

O ACHOSION O TIPIO ANGHYFREITHLON YNG NGHYMROU Y LLYNEDD

MAE

96%

O FYFYRWYR BRYDERON AM YR AMGYLCHEDD

A WYDDOCH CHI MAI TIPIO ANGHYFREITHLON YW HYN?



GADAEL GWASTRAFF CARTREF GERLLAW BIN A OS YW'R BINIAU YN LLAWN.

Dywedodd 41% o'r myfyrwyr a arolygwyd y byddent yn gwneud hyn!



GADAEL GWASTRAFF CARTREF AR OCHR Y FFORDD.

Dywedodd 13% o fyfyrwyr a arolygwyd y byddent yn gwneud hyn!

OS BYDDWCH YN TIPIO'N ANGHYFREITHLON GALLECH WYNEBU DIRWY, AC RYDYM I GYD YN GWYBOD BOD DIGON O BETHAU GWELL I WARIO EICH ARIAN ARNO!

1. gov.wales/new-stats-show-wales-upholds-world-class-recycling-rates-despite-pandemic

2. stats.wales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Fly-tipping/recordedflytippingincidents-by-wastetype

AWGRYMIADAU DEFNYDDIOL

- ✓ Er mwyn osgoi rhedeg allan o le yn eich bin, gwnewch yn siwr bod y bobl yr ydych yn byw gyda nhw yn gwybod y gellir rhoi llawer o eitemau gwastraff cartref yn y biniau ailgylchu sydd yn cael eu gwacáu'n wythnosol.
- ✓ Os nad oes lle i'r sbwriel yn eich biniau, mae angen mynd ag ef i ganolfan ailgylchu neu wastraff leol. Gallwch ddod o hyd i'ch canolfan leol yma: walesrecycles.org.uk/cy/lleolydd-ailgylchu
- ✓ Lluniwch rota ar gyfer y biniau gyda'r bobl yr ydych yn byw gyda nhw – mae rhannu'r dyletswyddau o roi'r bagiau cywir allan ar y diwrnod cywir yn sicrhau nad oes gennych ormod o fagiau a gormod ar eich plât.
- ✓ Chwiliwch am gyfleoedd i gyfnewid dillad. Gall y rhain fod yn ffordd dda o gael gwared ar hen ddillad tra'n cael dillad gwahanol – yn rhad ac am ddim.
- ✓ Mae prynu dillad mewn siopau elusen yn ffasiynol unwaith eto gyda 90% o fyfyrwyr a arolygwyd yn dweud eu bod yn prynu/caffael eitem sydd ei hangen arnynt yn ail-law yn rheolaidd neu weithiau.
- ✓ Torrwch ein nodyn atgoffa defnyddiol am gasgliadau ailgylchu a gwastraff a'i roi ar yr oergell fel nad ydych byth yn colli diwrnod bin eto.

CYMORTH AC ADNODDAU

- Dewch o hyd i'ch diwrnod casglu biniau yn: gov.uk/rubbish-collection-day
- Dewch o hyd i'ch canolfan ailgylchu agosaf yn: walesrecycles.org.uk/cy/lleolydd-ailgylchu
- Dewch o hyd i'ch cafffi trwsio lleol yn: repaircafewales.org/venues
- Canfyddwch sut i waredu eitemau swmpus yma: gov.uk/collection-large-waste-items
- Mwy o awgrymiadau defnyddiol ar gyfer ailgylchu yma: recyclenow.com
- Mae'r siopau elusen sydd gerllaw yma: charityretail.org.uk/find-a-charity-shop



EIN DIWRNOD BINIAU YW

GWASTRAFF CARTREF

AILGYLCHU

GWASTRAFF GARDD

EIN CANOLFAN AILGYLCHU LEOL YW:

EIN CAFFI TRWSIO AGOSAF YW:

BETH ARALL ALLWCH CHI EI WNEUD I HELPŪ?



TROWCH SBWRIEL YN ARIAN.

- Allwch chi ei werthu? Mae llwyth o leoedd lle byddai pobl wrth eu bodd yn prynu eich eitemau – neu hyd yn oed eu casglu am ddim – safleoedd fel Facebook Marketplace, Freecycle,
- Mae Gumtree neu eBay yn llawn pobl yn chwilio am drysorau ac yn aros i roi cartref newydd i'ch hen eitemau.
- Os na, gallech gysylltu â siopau elusen lleol fyddai, efallai'n gallu helpu trwy gasglu eich eitemau mawr.
- Dewch o hyd i'ch siop elusen leol yma: charityretail.org.uk/find-a-charity-shop

TRWSIO, NID TAFLU!

- Arbedwch arian a'r amgylchedd trwy fynd ag eitemau cartref y gellir eu trwsio i gaffi trwsio lleol.
- Mae caffis trwsio yn darparu'r offer a'r wybodaeth i'ch helpu i drwsio eitemau.
- Trwy drwsio eich gliniadur neu decell sydd wedi torri, rydych nid yn unig yn arbed cannoedd o bunnau, ond hefyd yn lleihau'r gwastraff a'r CO2 yr ydych yn ei greu.
- Dewch o hyd i'ch caffi trwsio lleol yma: repaircafewales.org/venues

- Ceisiwch leihau eich defnydd – ffasiwn araf nid ffasiwn cyflym! Gall siopau elusen fod yn ffordd dda o ddod o hyd i ddillad am gost llawer is na phris rhai newydd.
- Prynwch gwpan coffi aml dro y gallwch ei aildefnyddio i leihau gwastraff untro. Mae llawer o gaffis erbyn hyn yn cynnig gostyngiad hefyd am ddefnyddio cwpanau aml dro.
- Edrychwch i weld a yw eich undeb myfyrwyr yn cynnig trwsio nwyddau trydanol yn rhad.

- Gwnewch yn siwr bod gennych y biniau a'r bagiau cywir ar gyfer ailgylchu cymaint o wastraff â phosibl.
- Dywedwch wrth eich landlord am unrhyw wastraff y mae'r tenantiaid blaenorol wedi ei adael
- Dylech gael balchder yn eich cymuned leol trwy hysbysu ynghylch unrhyw achosion cyhoeddus o dipio anghyfreithlon trwy: flytippingactionwales.org/cy

DDIM YN OLWG DA

HAWS NAG YDYCH YN EI FEDDWL.
RHATACH NA DIRWY.

CHWILIWCH **CANOLFAN AILGYLCHU LLEOL**
I GANFOD FYRDD HAWDD O WAREDU EITEMAU DIANGEN.



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy